**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

—

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Mr Matthew Davies

19 Ionawr 2026

Annwyl Matthew,

Ffigurau ynni adnewyddadwy yng Nghymru

Diolch am eich gohebiaeth fanwl i'r Pwyllgor ynghylch ffigurau ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Nododd y Pwyllgor eich gohebiaeth yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2026.

Mae'r Pwyllgor eisoes wedi cytuno ar ei raglen waith ar gyfer tymor olaf y Chweched Senedd. Wrth wneud hynny, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu blaenoriaethu sesiynau craffu gyda'r Gweinidogion perthnasol a chyrff hyd braich Llywodraeth Cymru i helpu i lywio ei adroddiad gwaddol ar gyfer y Chweched Senedd, yn hytrach nag ymgymryd ag ymchwiliadau newydd. Gyda hynny mewn golwg, nid yw'r Pwyllgor mewn sefyllfa i ymgymryd â darn penodol o waith ar ffigurau ynni adnewyddadwy.

Fodd bynnag, bydd gan y Pwyllgor gyfle i archwilio'r materion a godwyd yn eich gohebiaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio pan fydd hi'n ymddangos gerbron yr Aelodau ar gyfer gwaith craffu cyffredinol ar 5 Mawrth 2026.

Yn gywir

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.